

LESTRANGE (TEULU), Great Ness, Cheswardine, a Knockin yn Sir Amwythig.

Bu JOHN LESTRANGE (a fu farw c. 1269) yn dyst i'r cytundeb rhwng [Dafydd ap Gruffydd](#) a'r brenin Harri III ym mis Mai 1240; yn Mawrth 1241 apwyntiwyd ef i farnu achos [Dafydd](#), ac yn Ionawr 1245 yr oedd yn aelod o gomisiwn i wneud telerau â [Dafydd](#). Priododd Hawise, merch John Lestrangle, â [Gruffydd ap Gwenwynwyn](#). Yn 1244-5 ysgrifennodd John Lestrangle at Harri III i ddweud wrtho am gynhorthwy [Gruffydd](#) i'r achos Seisnig; yn 1257 cynorthwyodd dywysog Powys yn erbyn [Llywelyn](#); hefyd fe amddiffynnodd ROGER LESTRANGE (mab John; bu farw yn 1311) gastell Dolforwyn dros [Gruffydd](#), ac ysgrifennodd at Edward, I i gefnogi hawl [Gruffydd](#) i droed rhwng y Rhiw a'r Helyg. Bu Hawise, gwraig [Gruffydd](#), yn arweinydd yng nghynllwyn gwrthryfelgar [Dafydd](#) yn erbyn [Llywelyn](#) yn 1274. Yr oedd Roger Lestrangle yn ustus yn Rhuddlan yn 1278; bu'n llywodraethu Maelor Saesneg a Mechain yn yr un flwyddyn, a thua diwedd y 13eg ganrif arweiniodd rai o'r lluoedd Seisnig yn erbyn y Cymry; cyfarfu ei lu ef â [Llywelyn](#) yn Llanfair-ym-Muellt ym mis Rhagfyr 1282. Bu amryw aelodau eraill o'r teulu hwn o Sir Amwythig yn flaenllaw yn y rhyfeloedd Cymreig.

Awdur

Ivor John Sanders, (1911 - 1991)

Ffynonellau

Littere Wallie (1940)

Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales (1935)

The Welsh Assize Roll, 1277-1284 (1940)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733760](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

